Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Adroddiad: CLA(4)-04-11 : 14 Gorffennaf 2011**

**Mae'r Pwyllgor yn adrodd i'r Cynulliad fel a ganlyn:**

**Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3**

**Offerynnau'r Weithdrefn Negyddol**

**CLA13 - Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Cofrestru, Modrwyo a Marcio Adar Caeth Penodol) (Cymru) 2011**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'u gwnaed ar:** 5 Gorffennaf 2011.
**Fe'u gosodwyd ar:** 7 Gorffennaf 2011.
**Dyddiad dod i rym:** 1 Awst 2011

**CLA14 - Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2011**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'u gwnaed ar:** 5 Gorffennaf 2011.
**Fe'u gosodwyd ar:** 7 Gorffennaf 2011.
**Dyddiad dod i rym:** 1 Awst 2011

**CLA15 - Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2011**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'u gwnaed ar:** 6 Gorffennaf 2011.
**Fe'u gosodwyd ar:** 8 Gorffennaf 2011.
**Dyddiad dod i rym:** 2 Awst 2011

**CLA16 - Rheoliadau Gofal Cymunedol, Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) (Diwygio) 2011**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'u gwnaed ar:** 6 Gorffennaf 2011.
**Fe'u gosodwyd ar:** 7 Gorffennaf 2011.
**Dyddiad dod i rym:** 2 Awst 2011

**CLA17 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2011**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'u gwnaed ar:** 11 Gorffennaf 2011.
**Fe'u gosodwyd ar:** 12 Gorffennaf 2011.
**Dyddiad dod i rym:** 3 Awst 2011

Nododd y Pwyllgor fod y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol wedi rhoi adroddiad ar y prif reoliadau (CA531 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynon ac Iawn) (Cymru) 2011), ac yn benodol y lefel o ymgynghoriad y cyfeirir ato. Er y gallai adroddiad technegol clir ar y Rheoliadau presennol gael ei gyflwyno, penderfynodd y Pwyllgor ohirio'r adroddiad ar y Rheoliadau hyn tan dymor yr hydref er mwyn caniatáu ar gyfer paratoi adroddiad 'rhinweddau' draft i'w ystyried gan y Pwyllgor.

**Busnes Arall**

**Trafod ymchwiliadau'r Pwyllgor ar gyfer y dyfodol**

**Darpariaethau ynghylch Gweinidogion Cymru yn Neddfau'r DU**

Cytunodd y Pwyllgor ar gylch gorchwyl yr ymchwiliad i'r trefniadau ar gyfer dyrannu pwerau i Weinidogion Cymru drwy Ddeddfau Senedd y DU.

**Llywodraethu Ystad y Goron yng Nghymru**

Trafododd y Pwyllgor ymchwiliad i strwythurau llywodraethol Cymru a Llywodraethu Ystad y Goron. Y bwriad yw dechrau hyn yn ddiweddarach yn ystod tymor yr hydref.

**Awdurdodaeth Cymru?**

Trafododd y Pwyllgor hefyd y posibilrwydd o ymchwiliad diweddarach i awdurdodaeth ar wahân i Gymru.

**Gohebiaeth y Pwyllgor**

Nododd y Pwyllgor ymateb y Gweinidog Addysg a Sgiliau i lythyr y Cadeirydd ynghylch CSI2 - Rheoliadau Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2011.

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**14 Gorffennaf 2011**